Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Francis
Wilson Road
Trelái
CF5 4JL

28/11/2024

Annwyl Marie Langsdale

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Francis i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau argymhelliad o'i harolygiad craidd diweddaraf. Ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hyn, isod. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau.

At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael ag amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd. Maent yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i wella medrau disgyblion fel dysgwyr annibynnol.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod arweinwyr yn canolbwyntio'n well ar fynd i'r afael â'r amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu**

- At ei gilydd, mae arweinwyr wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff i leihau amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Maent wedi rhoi ymagweddau cyson ar waith at ddatblygiad systematig medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg.
- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o brosesau monitro i werthuso pa mor dda y mae'r addysgu'n cydymffurfio â pholisïau cytûn yr ysgol. Er y bu hyn yn ddefnyddiol o ran galluogi ymagwedd gyson ar draws yr ysgol a'i fod wedi helpu sicrhau datblygiad systematig medrau disgyblion, mae prosesau gwerthuso, yn gyffredinol, yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar gydymffurfio a dim digon ar effaith yr addysgu ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.
- Mae arweinwyr yn defnyddio dysgu proffesiynol yn dda i wella ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, defnyddiodd staff ymweliad â meithrinfa yn Lloegr i

wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. O ganlyniad i hyn, mae staff wedi treialu ymagwedd ddifyr at ddysgu sylfaen yn y dosbarthiadau hyn. Mae hyn yn canolbwyntio'n hynod lwyddiannus ar ddiddordebau disgyblion a'u camau nesaf unigol mewn dysgu. Mae'r ysgol wedi rhoi cynlluniau synhwyrol ar waith i gyflwyno'r ymagwedd hon i ddosbarthiadau dysgu sylfaen eraill.

- Mae staff wedi dechrau myfyrio a rhannu eu harfer ar draws y gwahanol gyfnodau dysgu trwy ddefnyddio arsylwadau ar y cyd. Mae'r rhain yn dechrau arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu ac yn datblygu ethos o fyfyrio proffesiynol am addysgeg ymhlith staff.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n herio disgyblion i gyflawni ar lefel briodol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn glir am ddiben gwersi a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu dysgu. Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu a chanlyniad adolygiadau rheolaidd ar gynnydd disgyblion i addasu eu darpariaeth a helpu cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.
- Mae athrawon yn sicrhau bod gwersi a gweithgareddau yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac yn dechrau cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn defnyddio'u dealltwriaeth o rif a chyfrifo yn effeithiol i ddatrys ystod o broblemau geiriau.

**Gwella medrau dysgu'n annibynnol disgyblion**

- Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd yn raddol o beth yw dysgu'n annibynnol effeithiol ar gyfer disgyblion mewn gwahanol gyfnodau datblygu. Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.
- Mae staff yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 wedi cyflwyno ymagwedd fwy hyblyg at feithrin medrau dysgu'n annibynnol disgyblion. Mae'r dosbarthiadau hyn yn rhannu eu hystafelloedd dosbarth a gofod awyr agored i annog disgyblion i wneud dewisiadau am yr amgylcheddau dysgu y maent yn chwarae a dysgu ynddynt.
- Mae'r staff yn y dosbarthiadau hyn yn creu profiadau dysgu diddorol a difyr ym mhob maes sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion ddefnyddio ac atgyfnerthu eu medrau mewn chwarae a dysgu dan arweiniad y plentyn. Ochr yn ochr â thasgau dan arweiniad yr athro sy'n addysgu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd i ddisgyblion, mae gan ddisgyblion ryddid i ddewis, archwilio ac ymchwilio i wahanol adnoddau. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu creadigrwydd, eu gwydnwch a'u medrau datrys problemau.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio'r treial hwn i lywio'u camau nesaf mewn gwella annibyniaeth i ddisgyblion ar draws yr ysgol.
- Mae deialog broffesiynol rhwng arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn allweddol i'r datblygiadau hyn ac yn effeithiol wrth gynllunio sut i ddefnyddio ac addasu canfyddiadau'r treial i ddylanwadu ar y ffordd ymlaen.
- Er bod llawer o wersi mewn dosbarthiadau eraill yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau, meddwl yn annibynnol a defnyddio'u dychymyg, mae tuedd o hyd i athrawon arwain y dysgu a rhoi gormod o gyfarwyddyd ynghylch beth mae disgyblion yn ei ddysgu, a sut.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/st-francis-r-c-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol